## Canllawiau Grant Datblygu Eiddo Masnachol
## (Cronfa Gwella Eiddo Masnachol gynt, neu CGEM (CPIF))

This document is also available in English

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Grant Datblygu Eiddo Masnachol (GDEM) a'r Benthyciad Canol Tref (TCL) yn gynlluniau a gynigir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gefnogi adfywiad canol trefi a chyfrannu at Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Sicrhawyd cyllid ar gyfer y cynllun gan Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i gynnig buddsoddiad cyfalaf i adfywio eiddo masnachol yng nghanol nifer o'n trefi.

Gellir gwneud ceisiadau i'r gronfa nawr ar sail y cyntaf i'r felin. Os dyfernir grant, bydd yn rhaid i'r **HOLL** waith gael ei gwblhau a'i dderbynebu cyn mis Mawrth y flwyddyn ariannol honno.

## 2. Pwy all ymgeisio?

Mae'r GDEM yn cynnig cefnogaeth i feddianwyr a pherchnogion adeiladau manwerthu a masnachol. Gellir defnyddio'r grant i wella blaen adeiladau ac i droi gofodau masnachol gwag yn ofodau busnes buddiol unwaith eto ac i roi pwrpas newydd i eiddo ble'n briodol.

Bydd y grant ar gael i berchnogion buddiant rhydd-ddaliadol yr eiddo neu unigolion sydd â phrydles gyda 7 mlynedd neu fwy ar ôl ar ddyddiad y cais, ac sydd wedi cael caniatâd ysgrifenedig gan eu (prif) landlord ar gyfer y gwaith arfaethedig.

Anogir ceisiadau ar hyn o bryd ar gyfer eiddo masnachol yn yr ardal siopa a/neu ardaloedd cadwraeth Bae Colwyn, Llandudno ac Abergele a Phensarn.

Mae busnesau yn y categorïau canlynol yn gymwys i ymgeisio:

A1 Siopau - Siopau, siopau trin gwallt, ymgymerwyr, asiantau teithio a thocynnau, swyddfeydd post, siopau anifeiliaid anwes, siopau brechdanau, ystafelloedd arddangos, siopau llogi domestig, sychlanhawyr, trefnwyr angladdau a chaffis rhyngrwyd.

A2 Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol - Gwasanaethau ariannol megis banciau a chymdeithasau adeiladu, gwasanaethau proffesiynol (oni bai am wasanaethau iechyd a meddygol) gan gynnwys

gwerthwyr tai ac asiantaethau cyflogaeth. Nid yw'n cynnwys swyddfeydd betio na siopau benthyciadau diwrnod cyflog.

A3 Bwytai a chaffis - I werthu bwyd a diod i'w fwyta ar y safle - bwytai, bariau byrbrydau a chaffis.

I drafod eich cynnig, cysylltwch â:

**Katie Minton-Rowlands**
**Swyddog Prosiect Datblygu ac Adfywio**

**Rhif ffôn: 01492 577329**
**E-bost: regen@conwy.gov.uk**

## 3 Beth fydd y gwaith yn ei gefnogi?

Mae'n rhaid i'r gwaith arfaethedig ddisgyn o fewn o leiaf un o'r categorïau canlynol:

- Gwaith trwsio strwythurol a gwaith trwsio sylweddol arall i adeiladau sydd mewn cyflwr gwael.
- Ailosod nodweddion pensaernïol neu dreftadaeth sydd wedi'u colli neu eu difrodi sy'n cyfrannu at gymeriad hanesyddol ac ymddangosiad yr ardal.
- Gwaith sydd ei angen i wella, ailbwrpasu neu ailddefnyddio arwynebedd llawr mewnol gwag sy'n cael ei danddefnyddio er budd economaidd.

### 3.1 Gwaith Cymwys:

Gall cwmpas arfaethedig y gwaith ar gyfer yr eiddo gynnwys y canlynol:

Byddai <u>gwaith allanol</u> i flaen yr adeilad yn cael ei ystyried heb yr angen am waith mewnol. Gall hyn gynnwys gwaith sy'n cael ei gyfrif yn angenrheidiol er mwyn cadernid strwythurol a defnydd yr eiddo, yn enwedig pan fo bwriad i newid defnydd. Gall eitemau gynnwys:

- Blaen siopau;
- Gwella ffenestri arddangos
- Gwella arwyddion
- Ffenestri a drysau
- Goleuadau allanol
- Toeau a simneiau
- Landeri a phibellau dŵr
- Rendro, glanhau ac atgyweirio cerrig, ail-bwyntio; a
- Gwaith strwythurol

Byddai <u>gwaith mewnol</u> **ond yn gymwys i gael yr arian fel rhan o becyn o welliannau allanol** i'r adeilad, neu pan fo angen newid defnydd arfaethedig. Dylai hyn gynnwys yr holl waith, gweledol neu strwythurol, sydd ei angen i gwblhau'r prosiect i safon Rheoliadau Adeiladu. Gall hyn gynnwys:

- Ffenestri a drysau
- Gwell hygyrchedd
- Waliau, nenfydau, goleuadau
- Cyfleustodau a gwasanaethau, **gan gynnwys gwresogi;**
- Cyfleusterau Lles (e.e. cyfleusterau glanhau ac ymolchfa hanfodol yn unig); a
- Gwaith strwythurol

*Hefyd, gallai unrhyw waith i wella effeithlonrwydd ynni adeilad (e.e. insiwleiddio gwell), fod yn gymwys, fel rhan o gyfres ehangach o waith.*

*Nid yw gwaith i ddarparu / gwella eiddo ar gyfer eiddo preswyl yn gymwys.*

*Ni all y grant gynnwys gwaith datblygu (dyluniadau a chaniatâd cynllunio ac ati), ond byddai'r costau hyn yn gymwys o dan y 30% o arian cyfatebol sy'n ofynnol gennych chi ar gyfer y prosiect.*

### 3.2 Gwaith / Adeiladau nad ydynt yn denu cymorth grant

- Ni ellir defnyddio'r grant ar gyfer eiddo sy'n cynnig llety dros nos e.e. fflatiau, gwestai, Airbnb, llety gwely a brecwast ac ati.
- Nid yw gwaith i ddarparu / gwella eiddo ar gyfer eiddo preswyl yn gymwys

## 4. Dyfarniadau Grant Datblygu Eiddo Masnachol (GDEM) a Chyfyngiadau

4.1 Bydd grantiau o ryw 70% tuag at waith mewnol ac allanol cymwys yn cael eu hystyried (hyd at uchafswm o £50,000)

Caiff y grant ei ddyfarnu fel arfer heb gynnwys TAW. Lle mae TAW yn daladwy am waith cymwys ac na ellir ei adennill, gellir talu cymorth grant yn ôl disgresiwn CBSC, yn amodol ar yr Ymgeisydd yn ymrwymo i ad-dalu i'r grantiwr unrhyw elfen TAW a ddaw'n adenilladwy yn ddiweddarach gan Dollau Tramor a Chartref EF o ganlyniad i newid yn statws TAW yr Ymgeisydd.

Gall eich gwariant cyfatebol o 30% hefyd gynnwys ffioedd i'w talu am ddylunio a goruchwylio cronfeydd cymeradwy. Mae'n rhaid i ymgynghorwyr feddu ar gymhwyster proffesiynol priodol i natur y gwaith arfaethedig.

4.2 Swm y grant a nodir yn y llythyr cynnig grant yw uchafswm y cyfraniad tuag at y prosiect ond os bydd unrhyw ostyngiadau yng nghost y gwaith a

gymeradwywyd, bydd CBSC yn gwneud gostyngiad pro rata i swm y grant a gynigiwyd yn wreiddiol.

4.3 Rhaid i berchennog yr eiddo benodi pensaer cofrestredig neu syrfëwr adeiladau siartredig sydd â phrofiad priodol o reoli eu prosiect.

## 5. Ffurflen Gais am Grant

Cyn cyflwyno cais dylid gwneud ymholiad ffurfiol i'r Swyddog Prosiect Datblygu ac Adfywio. Byddant yn ymweld â'r eiddo a chadarnhau a yw'r ymgeisydd a'r gwaith arfaethedig yn gymwys.

5.1 Dylai'r ffurflen gais wedi'i chwblhau gael ei llofnodi gan yr ymgeisydd ac nid unrhyw asiant penodedig sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd, a dylid atodi'r canlynol gyda'r ffurflen:

i. Lluniadau anodedig i raddfa yn dangos yr adeilad presennol a'r gwaith arfaethedig a / neu fanylebau manwl y gwaith wedi'u paratoi gan bensaer, syrfëwr siartredig neu unigolyn â chymhwyster proffesiynol arall sy'n dderbyniol i CBSC. Mae'n bosibl y gofynnir am luniadau llawn yn ôl yr angen.

ii. Rhan o fap stryd neu Arolwg Ordnans maint A4 ar raddfa ddigonol i nodi'n glir union leoliad yr eiddo dan sylw.

iii. Ffotograffau diweddar o'r eiddo sy'n dangos yr adeilad cyffredinol a chyflwr pob elfen a fydd yn destun gwaith gwella.

iv. Tendrau yn unol â'r manylebau yn 5.2.

v. Lle bo angen, adroddiad cyflwr/strwythurol ar gyfer yr adeiladau a baratowyd gan syrfëwr neu bensaer â chymwysterau proffesiynol.

vi. Datganiadau / tystiolaeth yn dangos y ffioedd proffesiynol a fydd yn daladwy am y gwaith cymwys.

vii. Tystysgrif atebolrwydd TAW.

viii. Datganiad amgylcheddol yn disgrifio'r egwyddorion cynaliadwy sy'n cael eu cymhwyso i'r
Gronfa, a chadarnhad o gydymffurfiaeth â'r gofynion statudol o ran hygyrchedd i bawb a chyfle cyfartal.

ix. Rhaglen waith a rhagolygon o wariant a chostau.

x Enwau a chymwysterau'r ymgynghorwyr / asiant proffesiynol â chymwysterau addas a gyflogir gan yr ymgeisydd.

5.2 Rhaid i'r tendrau ddarparu'r manylebau canlynol:

i. Ar gyfer grantiau hyd at £15,000 bydd angen o leiaf 2 dendr eitemedig. Ar gyfer grantiau dros y swm hwn, bydd angen o leiaf 3 tendr eitemedig gan gontractwyr cydnabyddedig a fydd yn seiliedig ar luniadau a/neu fanylebau.

ii. Bydd y tendrau i gyd yn dilyn yr un templed, yn cael eu rhannu'n rhannau i ddangos costau elfennau unigol o'r gwaith, ac yn nodi'r deunyddiau a gynigir.

iii. Gan ddibynnu ar gwmpas a natur y gwaith arfaethedig, efallai y bydd angen dyfynbrisiau ychwanegol yn ôl disgresiwn llwyr CBSC.

5.3 Cadarnhau perchnogaeth o'r eiddo. Dylai hwn fod yn 'gopi swyddfa' fel arfer a dylai Cynllun Teitl gael ei ddarparu gan y Gofrestrfa Tir Lleol. www.landregistry.gov.uk.

5.4 Ni fydd ceisiadau'n cael eu hystyried nes bo'r gwaith arfaethedig wedi cael pob caniatâd angenrheidiol e.e. Caniatâd Cynllunio, Caniatâd Adeilad Rhestredig. Yr ymgeisydd / ymgeiswyr fydd yn gyfrifol am gael unrhyw ganiatâd fel hyn. Mae'n rhaid cael mathau eraill o ganiatâd megis Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu, Caniatâd Landlord a Chaniatâd Codwr Morgais cyn cychwyn ar y safle.

5.5 Os yw'r cais yn ymwneud ag eiddo sy'n destun prydles neu forgais, mae'n rhaid darparu tystiolaeth ysgrifenedig hefyd o ganiatâd y landlord / codwr morgais ar gyfer y gwaith arfaethedig. Os yw'r eiddo ar brydles, mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod â phrydles â 7 mlynedd neu fwy ar ôl arni ar ddyddiad y cais

5.6 Mae CBSC yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl ei ddisgresiwn ei hun.

5.7 Wrth wneud cais am grant, mae'r ymgeisydd yn gwarantu i CBSC fod yr holl wybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â'r cais, ac ynghlwm wrtho, yn wir ac yn gywir ym mhob ffordd a bod unrhyw amcanbrisiau ac allbynnau disgwyliedig a ragwelir neu ffeithiau eraill wedi cael eu gwneud ar ôl gwneud gwaith ymchwil

ac ymchwilio priodol a gofalus. Ystyrir bod y warant hon wedi'i rhoi eto ar yr adeg y mae'r ymgeisydd yn cyflwyno'r ffurflen hawlio grant.

5.8 Dogfennau ategol at ddibenion adnabod.

- Mae'n rhaid i bob ymgeisydd ddarparu Pasbort / Trwydded Yrru, Bil Cyfleustodau (llai na 6 mis oed)
- Os yw'r cais gan gwmni, mae'n rhaid i chi ddarparu cyfrifon ar gyfer y tair blynedd diwethaf
- Os cyflwynir cais gan unigolyn, mae'n rhaid darparu dau slip cyflog neu ffurflen P60
- Os cyflwynir cais gan weithiwr hunangyflogedig, mae'n rhaid darparu cyfrifon y tair blynedd diwethaf.

5.9 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gysylltu â sefydliadau eraill fel sy'n angenrheidiol i ganfod sefyllfa ariannol yr ymgeisydd. Os nodir unrhyw ddyledion, hysbysir yr ymgeisydd neu'r asiant, os oes un wedi'i benodi, o unrhyw resymau ariannol pam na chymeradwyir y cais am grant.

5.10 Os nad yw CBSC yn cymeradwyo'r cais manwl, ni fydd yn gwneud unrhyw gyfraniad tuag at unrhyw ffioedd ofer neu gostau eraill.

Asesu'r Cais

Bydd ceisiadau GDEM yn cael eu hystyried gan Banel Grant. Byddant yn ystyried pob prosiect yn seiliedig ar ei leoliad yng Nghanol y Dref, hyfywedd y cynigion (er enghraifft, cynllun busnes), argaeledd cyllid cyfatebol a chysylltiadau â chyfleoedd buddsoddi eraill. Byddant hefyd yn edrych ar y cyfraniad y byddai'r cynigion yn ei wneud i gyflawni'r amcanion a nodir yng Nghynllun Creu Lleoedd y Dref.

## 6. Allbynnau

Byddai disgwyl i'r holl brosiectau a gefnogir gan y Gronfa gyfrannu at rai o allbynnau'r Rhaglen Trawsnewid Trefi a'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Diffinnir yr allbynnau isod.

Mae'r cwestiynau wedi'u cynnwys ar y ffurflen gais a bydd yr allbynnau'n cael eu monitro.

**Trawsnewid Trefi**

| Allbwn | Diffiniad |
|---|---|
| TT02: Nifer y swyddi a hwyluswyd (wedi'u galluogi drwy fuddsoddiad adfywio) | Nifer y swyddi a hwyluswyd ar y safleoedd ac yn yr adeiladau. |

| | |
|---|---|
| | Enghreifftiau o dystiolaeth:  Cynlluniau llawr, manylion yr adeilad i gefnogi nifer y desgiau / lleoliadau newydd a ddarperir. |
| TT07:  Mentrau a hwyluswyd | Nifer y mentrau a hwyluswyd ar y safleoedd ac yn yr adeiladau.<br>Menter: Unrhyw endid yn ymwneud â gweithgarwch economaidd. Mae hyn yn cynnwys: Unigolion hunangyflogedig neu Bartneriaethau neu gymdeithasau sy’n ymwneud yn rheolaidd â gweithgarwch economaidd.<br>Enghreifftiau o dystiolaeth:  Cynlluniau llawr, manylion yr adeilad i gefnogi nifer y desgiau / lleoliadau newydd a ddarperir. |
| TT09: Nifer y metrau sgwâr a grëwyd neu a ailwampiwyd fel safle dibreswyl | Nifer y metrau sgwâr a grëwyd neu a adnewyddwyd at ddefnydd annomestig.<br>Mae estyniadau i adeiladau hefyd yn cyfrif fel arwynebedd llawr newydd.<br>Enghreifftiau o dystiolaeth:  Tystysgrif cwblhau gwaith ymarferol.  Tystysgrif Sicrwydd Ansawdd ar gyfer gwaith wedi’i wneud e.e. gwasanaethau / cyfleustodau a seilwaith ar y safle, sylfeini wedi’u gosod, waliau wedi’u codi a tho wedi’i osod. |
| TT10: Nifer y safleoedd dibreswyl sydd wedi’u creu neu eu hailwampio | Nifer yr adeiladau sydd wedi’u creu neu eu hailwampio at ddefnydd annomestig.<br>Enghreifftiau o dystiolaeth:  Tystysgrif cwblhau gwaith ymarferol.  Tystysgrif Sicrwydd Ansawdd ar gyfer gwaith wedi’i wneud e.e. gwasanaethau / cyfleustodau a seilwaith ar y safle, sylfeini wedi’u gosod, waliau wedi’u codi a tho wedi’i osod. |
| TT16 - Nifer yr unedau dibreswyl sy’n cael eu defnyddio eto | Nifer yr unedau dibreswyl, a fu’n wag am chwe mis neu fwy ar ddechrau’r flwyddyn ariannol (1 Ebrill), sydd wedi cael eu hailfeddiannu / ailddefnyddio.<br>Enghreifftiau o dystiolaeth:  Cyfeiriadau’r eiddo sydd wedi’u gwella ac ar gael i'w meddiannu. |
| TT18: Nifer y BBaChau yng Nghymru sydd wedi llwyddo i sicrhau contractau | Nifer y BBaChau yng Nghymru sydd wedi cael contractau cyfan neu rannol.<br>BBaCh - categori o fentrau awtonomaidd micro, bach a chanolig sy’n cyflogi llai na 250 o unigolion. |

| | |
|---|---|
| | Enghreifftiau o dystiolaeth: Copïau o'r dogfennau contract ar ôl tendro. |
| TT19: Gwerth y contractau a ddyfarnwyd i BBaChau yng Nghymru | Gwerth y contractau cyfan neu rannol a ddyfarnwyd i fusnesau BBaCh yng Nghymru.<br>BBaCh - categori o fentrau awtonomaidd micro, bach a chanolig sy'n cyflogi llai na 250 o unigolion.<br>Enghreifftiau o dystiolaeth: Copïau o'r dogfennau contract ar ôl tendro a 'ffurf y tendr'. |

**Effaith amgylcheddol**

Lle bo hynny'n bosibl, bydd y prosiectau ailwampio a gefnogir gan y Gronfa yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon gan y dylai gwaith trwsio ymgorffori mesurau ar gyfer arbed adnoddau ac ynni.

Mae adeiladau'n cyfrannu'n sylweddol at lefelau allyriadau ar hyn o bryd ac felly mae'n ofynnol i chi (lle bo hynny'n bosibl) ddangos sut yr ydych wedi ystyried allyriadau carbon yn eich cynigion a pha gamau gweithredu yr ydych wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd i'w lleihau.

Lle bo hynny'n bosibl, hoffem weld gostyngiad yn lefelau tystysgrifau perfformiad ynni'r eiddo sy'n derbyn grant. Mae'r cwestiynau wedi'u cynnwys ar y ffurflen gais a bydd yr allbynnau'n cael eu monitro.

Lle bo hynny'n briodol, gofynnir am Gynlluniau Gwastraff ar gyfer pob safle. Y nod yw y bydd o leiaf
10% o'r deunyddiau a ddefnyddir yn dod o ffynonellau wedi'u hailgylchu a'u hailddefnyddio.

**Buddion Cymunedol**

Dylai prosiectau sy'n elwa o gyllid cyhoeddus gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol nawr ac yn y dyfodol. Y nod yw adeiladu cymunedau cryfach, lleihau eithrio cymdeithasol a thlodi ac annog datblygiad yr economi.

Rhaid i ymgeiswyr ac unrhyw drydydd parti sy'n derbyn unrhyw ran o'r cyllid sicrhau'r buddion cymunedol mwyaf posibl drwy'r cyllid drwy ddarparu, lle bo hynny'n berthnasol:-

1. Cyfleoedd Hyfforddiant a Chyflogaeth: annog contractwyr i recriwtio a hyfforddi pobl economaidd anweithgar fel rhan o'r gweithlu sy'n cyflawni unrhyw gontract a osodir, yn uniongyrchol a / neu'n anuniongyrchol, drwy'r gadwyn gyflenwi. Gallai hyn gynnwys cyflogaeth; prentisiaethau; profiad gwaith; treialon gwaith; neu gyfleoedd hyfforddi perthnasol eraill.

2. Cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi i BBaChau yng Nghymru: Mae'n rhaid i gontractwyr llwyddiannus mewn unrhyw gaffaeliad ystyried cyfleoedd i BBaChau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.

3. Cyfrannu at y Gymuned ac Addysg: Dylai contractwyr llwyddiannus ystyried buddion eraill i'r gymuned megis:-

- gweithio gydag ysgolion a cholegau lleol i gefnogi lleoliadau profiad gwaith; diwrnod gyrfaoedd; cymorth ar gyfer prosiectau ysgol
- Cyfrannu at adfywio cymunedol trwy rodd; rhodd mewn nwyddau; cefnogaeth i brosiectau lleol; ymgynghori; addysg.

Mae'r cwestiynau wedi'u cynnwys ar y ffurflen gais a bydd yr allbynnau'n cael eu monitro.

## 7. Dyfynbrisiau ac amcanbrisiau

### Gweithdrefn Dendro

7.1 Dylai prosiectau sy'n elwa o arian cyhoeddus gyfrannu'n gyffredinol at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol nawr ac yn y dyfodol, gyda'r nod o adeiladu cymunedau cryfach, lleihau eithrio cymdeithasol a thlodi ac annog datblygiad yr economi.

7.2 Mae ein hymrwymiad i ddarparu canlyniadau 'budd cymunedol', o weithgarwch caffael wedi'i lunio i sicrhau bod y materion cymdeithasol ac economaidd ehangach hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth wario arian cyhoeddus. Y bwriad yw cyflawni'r gwerth gorau am arian yn yr ystyr ehangaf.

7.3 Rhaid i chi wneud y mwyaf o'r buddion cymunedol a ddarperir trwy'r cyllid trwy ddarparu lle bo hynny'n berthnasol:

a) Cyfleoedd Hyfforddiant a Chyflogaeth: annog contractwyr i recriwtio a hyfforddi pobl economaidd anweithgar fel rhan o'r gweithlu sy'n cyflawni unrhyw gontract a osodir, yn uniongyrchol a / neu'n anuniongyrchol, drwy'r gadwyn gyflenwi. Gallai hyn gynnwys cyflogaeth; prentisiaethau; profiad gwaith; treialon gwaith; neu gyfleoedd hyfforddi perthnasol.

b) Cyfleoedd cadwyn gyflenwi i BBaCh yng Nghymru: rhaid i gontractwyr llwyddiannus mewn unrhyw gaffaeliad ystyried cyfleoedd i BBaChau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a ffatrïoedd a busnesau a gefnogir. Gall hyn gynnwys:

- Hysbysebu cyfleoedd is-gontractio ar GwerthwchiGymru
- Defnyddio Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr Llywodraeth Cymru i

hyrwyddo cyfleoedd i dendro a chynnal digwyddiadau ‘Cwrdd â’r Prynwr’

c) Cyfrannu at y Gymuned ac Addysg: contractwyr llwyddiannus yn ystyried buddion eraill i’r gymuned megis:
   - Gweithio gydag ysgolion a cholegau lleol i gefnogi lleoliadau profiad gwaith; diwrnodau gyrfaoedd; cefnogaeth ar gyfer prosiectau ysgol
   - Cyfrannu at adfywio cymunedol trwy rodd, rhodd mewn nwyddau, cefnogaeth i brosiectau lleol; ymgynghori; addysg.

Bydd gofyn i chi fonitro’r buddion cymunedol a gyflawnir yn ystod y prosiect.

Sylwch: Dylech anelu at ddefnyddio deunyddiau wedi’u hailgylchu neu eu hailddefnyddio ar gyfer 10% o’r deunyddiau a ddefnyddir.

## 8. Hysbysiad Preifatrwydd

Rydym ni’n cymryd eich preifatrwydd o ddifrif a dim ond i brosesu eich cais/ymholiad ac i ddarparu'r wybodaeth a'r gwasanaethau rydych chi wedi gofyn amdanyn nhw y byddwn ni’n defnyddio’ch gwybodaeth bersonol.

Er mwyn i chi gael gwybodaeth a/neu gefnogaeth gan Dîm Cyllid Ewropeaidd ac Allanol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, byddwn yn cofnodi eich gwybodaeth bersonol. Heb eich gwybodaeth bersonol mae’n bosib na fyddwn yn gallu darparu’r wybodaeth / gwasanaeth rydych chi wedi gofyn amdanyn nhw.

Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth hon yn y ffyrdd canlynol:

- i’n helpu i ddelio â’ch ymholiad;
- i’n helpu i brosesu cais am grant;
- i’ch galluogi i gael gafael ar gynnyrch a gwasanaethau perthnasol, e.e. GRANTfinder; Cymorth i Fusnesau;
- i gyfathrebu â chi;
- i brosesu trafodion ariannol ar gyfer grantiau sy’n ymwneud yn uniongyrchol â ni; ac
- i’n galluogi i wella ansawdd ein gwasanaethau.

Mae’n bosibl y byddwn yn datgelu gwybodaeth bersonol i adrannau eraill y Cyngor er mwyn dilysu cais am grant neu i ganfod cyfleoedd eraill i gael cyllid. Mae’n bosib y byddwn yn datgelu gwybodaeth bersonol i drydydd parti, ond dim ond:

- pan fo’n ofynnol dan y gyfraith; neu
- pan ganiateir hynny dan ddeddfwriaeth Diogelu Data.

**Sylwch:**

> 'Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor warchod y cyllid cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, ac felly gall ddefnyddio unrhyw wybodaeth rydych wedi ei rhoi i atal, canfod ac ymchwilio i dwyll ac anghysonderau, ar gyfer cyflawni contract neu dasg a gyflawnir er lles y cyhoedd, neu i gydymffurfio ag ymrwymiad cyfreithiol. Rhan 6 Deddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yw'r sail Gyfreithiol.'

**Pa mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth**

Am chwe blynedd o ddyddiad eich ymholiad neu, ar gyfer grantiau a ddyfernir, saith mlynedd o ddyddiad talu'r grant.

**Eich hawliau o ran eich gwybodaeth**

I gael manylion llawn am eich hawliau o ran eich gwybodaeth, gwelwch Hysbysiad Preifatrwydd Llawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn www.conwy.gov.uk/hysbysiadaupreifatrwydd

Mae eich hawliau gwybodaeth ar gyfer y gwasanaeth hwn wedi'u nodi isod:

Mae gennych hawl i:

- weld y data rydym yn ei gadw;
- cywiro unrhyw wallau;
- cyfyngu ar ddefnydd y wybodaeth a gedwir amdanoch os ydych chi wedi codi gwrthwynebiad, tra bo'ch gwrthwynebiad yn cael ei ymchwilio; a
- gofyn i ni ddileu cofnodion a gedwir gennym amdanoch chi, ar wahân i wybodaeth sy'n cefnogi ceisiadau am grant, cyn y cyfnod a nodir uchod.

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau, cysylltwch â:

> Tîm Cyllid
> Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
> Blwch Post 1
> CONWY
> LL30 9GN
>
> E-bost: cyllid@conwy.gov.uk

Os nad ydych chi’n fodlon â’r ymateb y byddwch yn ei dderbyn gennym mae gennych hawl i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth Cymru
2il Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Rhif Ffôn: 029 2067 8400
Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: wales@ico.org.uk
Gwefan: ico.org.uk

## 9. Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi’r hawl i’r cyhoedd wneud cais am unrhyw wybodaeth sydd gennym. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a dderbyniwyd gan drydydd parti, megis, ond nid yn gyfyngedig i, ymgeiswyr grantiau, deiliaid grantiau, contractwyr a phobl sy'n gwneud cwyn. Os gwneir cais am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn rhyddhau’r wybodaeth honno, yn amodol ar rai eithriadau, er efallai y byddwn yn ymgynghori â chi yn gyntaf. Os ydych chi’n credu y gall yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu fod wedi'i heithrio rhag cael ei rhyddhau, dylech roi gwybod i ni wrth wneud cais.

**NEGES BWYSIG!**

Mae dal gwybodaeth yn ôl yn fwriadol neu ddarparu gwybodaeth ffug yn dwyllodrus a gallai arwain at erlyniad!